

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Cynllun Gweithredu **Safonau'r Gymraeg**

Mae Pawb

*yn Gallu Siarad **Cymraeg**
yn y Gweithle*

Everybody

*Can speak **Welsh** in the
Workplace*

Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU		
Sut yr ydym ni'n bwriadu cydymffurfio	Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg	Goruchwylio
<p>Sefydlu dewis iaith Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gofyn beth ydy iaith ddewisol y defnyddiwr gwasanaeth pan fydd yn ymdrin â hwy am y tro cyntaf.</p>	<p>Bydd yr adran sydd yn cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth yn cofnodi'r dewis iaith a bydd yr wybodaeth yn cael ei rannu gydag adrannau mewnol eraill yn ôl y galw.</p>	<p>Bydd pob Pennaeth Adran yn gyfrifol am oruchwylio safonau'r Gymraeg o dan eu cyfarwyddiaeth hwy eu hunain gan gynnwys cadw cofnod a monitro.</p>
<p>Gohebiaeth Pan fydd y Gwasanaeth yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, bydd yn ymateb yn Gymraeg, os oes angen ymateb. Pan fydd y Gwasanaeth yn anfon gohebiaeth heb wybod beth ydy iaith ddewisol y sawl sy'n ei dderbyn, mae'n rhaid iddo anfon yr ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. (Safonau 1,4,5 a 6) Bydd e-byst allanol a llythyrau a anfonir gan y Gwasanaeth ar bapur â phennawd yn cynnwys y datganiad canlynol yn y troedyn: (Safon 7) <i>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.</i> <i>We welcome correspondence in Welsh and English - we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay.</i></p>	<p>Mae'r Gwasanaeth wedi cynhyrchu a chyhoeddi ar ei fewnrwyd cyfarwyddyd i staff i wneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer anfon gohebiaeth i'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r logos "Siarad Cymraeg" a "Dysgu Cymraeg" wedi cael eu cynnwys yn llofnod e-bost safonol y Gwasanaeth sydd ar gael i'w defnyddio gan aelodau staff mewn swyddi Cymraeg hanfodol neu aelodau staff sydd eisiau defnyddio'u Cymraeg yn y gweithle.</p> <p>Yr adrannau sydd yn gyfrifol am osod troedyn e-byst corfforaethol a phapur swyddogol wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol.</p>	<p>Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r angen i barchu dewis iaith neu, os oes angen, anfon gohebiaeth yn ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i bob aelod o'r staff fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf.</p>

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Sut yr ydym ni'n bwriadu cydymffurfio	Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg	Goruchwylio
<p>Galwadau Ffôn Nid yw Safonau'r Gymraeg yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar y Gwasanaeth i ateb galwadau 999 yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth eisoes wedi pennu swyddi Ystafell Reoli fel swyddi Cymraeg hanfodol er mwyn ei alluogi i ddarparu gwasanaeth 999 dwyieithog a bydd y trefniant hwn yn parhau. Bydd gweithwyr y Gwasanaeth yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn. Mae swyddi sy'n ymgymryd â dyletswyddau derbynfa yn swyddi Cymraeg hanfodol ac mae siaradwyr Cymraeg wedi cael eu penodi i'r swyddi hyn. (Safonau 8, 9,13 a 20) Mae staff sydd yn siarad Cymraeg wedi eu hamlygu mewn rhestr ar fewnwyd y Gwasanaeth, fel bod modd dod o hyd i siaradwyr Cymraeg yn hawdd pan fydd angen. (Safonau 10 a 18) Pan fydd y Gwasanaeth yn ffonio defnyddiwr gwasanaeth am y tro cyntaf, bydd yn gofyn iddynt nodi a ydynt yn dymuno derbyn galwadau gan y Gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg o hynny ymlaen. Bydd y dewis iaith hwnnw'n cael ei nodi a'i barchu. (Safon 21)</p>	<p>Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnwyd y Gwasanaeth ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r galwr yn dymuno ymdrin â'r Gwasanaeth yn Gymraeg, ond bod y sawl sy'n derbyn yr alwad yn ddi-gymraeg.</p> <p>Rhoddir ffeiliau sain sydd yn engreiffiau cyfarchion dwyieithog ar fewnwyd y Gwasanaeth.</p>	<p>Mae'r holl staff wedi cael eu hamlygu bod angen parchu dewis iaith wrth ddelio gyda galwadau ffôn ac wrth gysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i bob aelod o'r staff fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.</p>

<p>Cyfarfodydd Pan fydd y Gwasanaeth yn trefnu cyfarfod gydag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, mae'n rhaid gofyn i'r gwaddedigion a ydynt yn dymuno cyfrannu i'r cyfarfod yn Gymraeg. Os ydy'r unigolion yn nodi eu bod yn dymuno siarad Cymraeg, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth barchu a hwyluso'r dewis hwnnw.</p>	<p>Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnwyd y Gwasanaeth ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg wrth gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth.</p> <p>Mae'r dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd, os oes angen ac os ydy'r safonau'n caniatáu hynny.</p>	<p>Bydd yr aelodau staff hynny sydd yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn gyfrifol am ac yn atebol am wneud yn siŵr bod dewis iaith wedi cael ei gynnig, ei barchu a'i hwyluso.</p>
<p>Dogfennau a Ffurflenni Ac eithrio papurau a chofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub, bydd dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu gan y Gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog. Bydd y Gwasanaeth yn gwneud ei orau i osgoi cynhyrchu dogfennau a ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, fodd bynnag os nad oes modd osgoi hyn, bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y fersiwn hwnnw ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn yn cael eu trin yn gydradd ac ni fyddwn yn trin un fersiwn yn llai ffafriol na'r llall. (Safonau 38, 46 – 48B)</p>	<p>I gydnabod bod rhai cartrefi yn cynnwys trigolion sydd yn siarad Cymraeg, dysgu Cymraeg neu sydd methu â siarad Cymraeg o gwbl, mae'r Gwasanaeth yn cynhyrchu dogfennau dwyieithog, yn hytrach na chreu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol bod angen cynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Mae cyfarwyddyd ar geisiadau am waith cyfieithu ar gael ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd. Tîm Cyfryngau'r Gwasanaeth sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr holl ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol wedi cael eu dylunio a'u fformatio yn y ddwy iaith ar yr un pryd.</p>

<p>Arwyddion a hysbysiadau Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus sy'n cael eu harddangos ar safleoedd y Gwasanaeth, gan gynnwys arwyddion a hysbysiadau dros dro, yn ddwyieithog, a bydd y testun Cymraeg wedi ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. (Safonau 58,59 a 139-141)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn gwneud yn siŵr bod y gofyniad i "roi'r Gymraeg yn gyntaf" ar arwyddion dwyieithog yn cael ei gynnwys mewn tendrau a chontractau perthnasol ayyb a bod y gofyniad yn cael ei weithredu a'i fonitro.</p>	
<p>Gwefannau a gwasanaethau ar-lein Mae gan y Gwasanaeth wefan gorfforaethol gwbl ddwyieithog ac mae'r holl dudalennau'n cael eu creu yn Gymraeg a Saesneg, maent yn gwbl weithredol ac mae modd newid rhwng y ddwy iaith yn rhwydd. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i ddigwyddiadau brys yn aml iawn yn ddeinamig ac o'r herwydd nid yw bob amser ar gael yn ddwyieithog yn syth bin ond rydym yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog ynglŷn â digwyddiadau brys cyn gynted â phosib. Nid yw'r Gwasanaeth fel arfer yn cynnig gwasanaethau ar-lein, fodd bynnag mae prosesau recriwtio'n cael eu hybu a'u gweinyddu ar-lein ac maent bob amser yn gwbl ddwyieithog. (Safonau 49, 52 a 53)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn creu tudalen newydd ar ei brif wefan er mwyn darparu gwybodaeth bellach i'r cyhoedd am sut i gael mynediad i wasanaethau Cymraeg. Cyhoeddir ar y dudalen hon gwtboath am gyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r Gwasanaeth.</p>	<p>Tîm Cyfryngau'r Gwasanaeth sydd yn borthorionyn y broses o ddiweddarau'r brif wefan. O bryd i'w gilydd, bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Gwasanaeth yn cynnal ymarfer gwirio ansawdd i sicrhau bod gwefannau'r Gwasanaeth yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, un ai yn Gymraeg neu Saesneg, mewn perthynas ag ansawdd neu hygyrchedd ei wefan. Os hoffech roi adborth ynglŷn â gwefan y Gwasanaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth: GTDC@decymru-tan.gov.uk</p>

<p>Derbynfeydd Mae Pencadlys y Gwasanaeth wedi ei leoli yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, ac yma mae ei brif dderbynfa. Mae safleoedd eraill sydd gan dderbynfeydd cyhoeddus. Mae swyddi derbynfa yn swyddi Cymraeg hanfodol ac mae siaradwyr Cymraeg wedi cael eu penodi i'r swyddi hynny. (Safonau 61, 64 a 65)</p>	<p>Oherwydd polisi'r Gwasanaeth i ddynodi swyddi derbynfa Cymraeg yn hanfodol, darperir gwasanaeth dderbynfa dwyieithog yn y pencadlys rhwng 09.00 a 17.00 Dydd Llun i Ddydd Iau, ac 08.30 – 16.30 ar Ddydd Gwener. Mae staff sydd yn darparu gwasanaeth derbynfa yn ystod amser egwyl, salwch ayyb yn siarad Cymraeg.</p>	<p>Mae Pennaeth yr Adran Cefnogi Busnes yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod gwasanaeth dwyieithog ar gael o fewn oriau arferol gwaith. Mae'r Gwasanaeth yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â safon ei wasanaeth derbynfa Cymraeg.</p>
<p>Dyfarnu contractau Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn gweithdrefnau caffael o ran darparu cyfarwyddyd i gyflenwyr posib a chyfarwyddyd i staff. Bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a byddant yn cynnwys datganiad sy'n nodi'n glir bod modd anfon tendrau yn y Gymraeg, ac na fydd unrhyw dendrau a anfonir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau sy'n cael eu cyflwyno yn y Saesneg. Os gwahoddir y sawl sy'n tendro i gyfweiliad fel rhan o'r broses o asesu'r tendr, byddwn yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg yn ystod y cyfweiliad a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio, oni bai bod modd cynnal y cyfweiliad heb gymorth cyfieithu ar y pryd. (Safonau 73, 74, 74A, 76 a 77)</p>	<p>Bydd yr aelodau staff hynny sydd yn rhan o'r broses dendro, ac sydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant pwrpasol yn y Gymraeg i'w galluogi i ddod yn gyfarwydd â'r eirfa benodol a ddefnyddir yn ystod y broses dendro.</p>	<p>Pennaeth yr Adran Gyllid sydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r broses dendro.</p>

<p>Cyrsiau addysgol a gynigir i'r cyhoedd Mae'r Gwasanaeth yn cynnig amryw o gyrsiau ac ymweliadau addysgol sydd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cyrsiau a'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael ar brif wefan y Gwasanaeth: http://www.southwales-fire.gov.uk/Cymraeg/yoursafety/sci/Pages/home.aspx</p>	<p>Mae nifer o swyddi yn Adran Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth yn swyddi Cymraeg hanfodol er mwyn ein galluogi i ddarparu cyrsiau ac ymweliadau addysgol yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.</p>	<p>Pennaeth yr Adran Diogelwch Cymunedol sydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sydd yn berthnasol i ddarparu cyrsiau addysgol i'r cyhoedd.</p>
SAFONAU LLUNIO POLISI		
<p>Mae'r holl bolisiau, prosiectau, gweithdrefnau a mentrau newydd y mae'r Gwasanaeth yn eu rhoi ar waith yn amodol ar Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'n rhaid i staff sydd yn llunio polisiau newydd ystyried yr effeithiau positif a/neu negatif y gallai'r polisi hwnnw ei gael ar y Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Mae canllawiau newydd i staff am sut i gwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y canllawiau cyffredinol am gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. (Safonau 85-90 a 92-94)</p>	<p>Yn ogystal ag adnabod sut y gall polisi gael effaith negyddol ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid i staff ystyried sut y bydd y polisi'n arwain at ganlyniadau positif, neu sut y gallwn addasu'r polisi i sicrhau canlyniadau positif.</p>	<p>Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg yn gwenud ymarfer gwirio ansawdd i asesu sut mae goblygiadau'r Gymraeg yn cael eu cydnabod drwy'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb. Mae pob Pennaeth Adran yn gyfrifol am archwilio a chymeradwyo'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb y gwnaethpwyd gan eu rheolwyr canol.</p>

SAFONAU GWEITHREDOL

<p>Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol Yn unol â safon 95, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso'r iaith yn fewnol. Mae polisi'r Gwasanaeth ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol wedi cael ei gyhoeddi ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd. (Safon 95)</p>	<p>Mae polisi'r Gwasanaeth ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth, e.e. gwisgo bathodyn "Siarad Cymraeg"/ "Dysgu Cymraeg", anfon ceisiadau am swyddi mewnol yn Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn ystod cyfarfodydd ayb.</p>	<p>Byddwn yn casglu tystiolaeth ar y modd y mae timau a rheolwyr yn hybu a gweithredu ethos dwyieithog yn eu gweithleoedd a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses adrodd statudol.</p>
<p>Swyddi newydd Pan fydd swydd newydd yn cael ei chynnig i unigolyn, byddwn yn gofyn i ddeiliad y swydd a ydynt yn dymuno cael cytundeb cyflogaeth Cymraeg neu Saesneg. Os ydynt yn dewis Cymraeg, byddwn yn darparu cytundeb Cymraeg. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig darparu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg os mai dyna ydi dymuniad yr unigolyn. (Safon 96)</p>	<p>Mae prosesau mewnol yr adran Adnoddau Dynol yn eu lle i wneud yn siŵr bod gweithwyr newydd yn cael dewis iaith ar ddechrau'r broses recriwtio a bydd y dewis hwnnw yn cael ei hwyluso yn ystod yr holl gamau wrth iddynt symud ymlaen yn y broses o fod yn ymgeisydd i fod yn gydweithiwr.</p>	<p>Mae Pennaeth yr Adran Adnoddau Dynol wedi cymeradwyo cynllun gweithredu i wneud yn siŵr bod y Safonau perthnasol yn cael eu hymgorffori ym musnes craidd y Gwasanaeth.</p>
<p>Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y corff Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal arolwg o'i brosesau, gweithdrefnau a dogfennaeth Adnoddau Dynol i wneud y siŵr bod modd i staff dderbyn fersiynau Cymraeg o'r canlynol heb oedi os ydynt yn dymuno:</p>	<p>Mae staff wedi derbyn cyfarwyddyd ar eu hawliau o dan y Safonau drwy'r canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd.</p>	<p>Byddwn yn casglu gwybodaeth ynglŷn â nifer y staff sydd yn dewis derbyn y dogfennau y cyfeirir atynt yn safonau 97 – 101 fel rhan o'r broses adrodd statudol.</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Gohebiaeth bapur yn gysylltiedig â'u cyflogaeth • Dogfennau sydd yn amlinellu eu hanghenion neu ofynion dysgu • Dogfennau sydd yn amlinellu eu hamcanion perfformiad • Dogfennau sydd yn amlinellu eu cynllun gyrfa • Ffurflenni sydd yn cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg. (Safonau 97 – 101) 		
<p>Polisiau Adnoddau Dynol Bydd y polisiau a restrir yn Safonau 102-108 yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		
<p>Cwynion a disgyblaeth Mae gan y Gwasanaeth drefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod modd i staff gyfrannu tuag at brosesau cwynion a disgyblu un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol. Mae'r rhain yn cynnwys cyhuddiadau, ymateb i gyhuddiadau, rhoi datganiadau yn ystod cyfweliadau ayb. (Safonau 109-116)</p>		<p>Byddwn yn casglu gwybodaeth ynglŷn â nifer y staff sydd yn dewis defnyddio'r Gymraeg wrth gymryd rhan mewn cwynion neu achosion disgyblu fel rhan o'r broses adrodd statudol.</p>
<p>Meddalwedd Mae pob aelod o staff sy'n mewn swydd Cymraeg hanfodol, neu sydd eisiau defnyddio'u Cymraeg yn y gweithle, yn cael cynnig meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg, Cysgliad, ar ei gyfrifiadur gwaith. (Safon 117)</p>		

<p>Y fewnrwyd Bydd y Gwasanaeth yn rhoi prosiect ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad i gael mewnrwyd ddwyieithog erbyn 30.09.18. (Safonau 118-123)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn cymryd mantais o unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddylunio ac adnewyddu'r fewnrwyd. Disgwylir i'r cyfleoedd yma ddod yn amlwg drwy'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb ac fel bod y prosiect yn mynd yn ei flaen.</p>	<p>Bydd Uwch Dîm Rheoli y Gwasanaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.</p>
<p>Asesu sgiliau iaith Gymraeg Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd Adnoddau Dynol newydd i gynnal ymarfer casglu data gyda chydweithrediad y staff. Y mae gofyn ar i staff hunan-asesu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â darllen, ysgrifennu a siarad a nodi eu lefel rhwng 0-5 ar gyfer y tri chategori hwn. (Safon 24)</p>	<p>Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a bydd y data'n sail i'r strategaethau a pholisïau Adnoddau Dynol a fydd yn cael eu llunio yn y dyfodol, e.e. cynnig cyfle i staff sydd â sgiliau Cymraeg cudd wneud hyfforddiant goywi iaith, neu drosglwyddo staff o fewn rolau ayyb.</p>	<p>Bydd proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn cael ei fonitro a byddwn yn adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol.</p>
<p>Hyfforddiant iaith Gymraeg Pan fydd y cyrsiau a restrir yn Safon 125 yn cael eu cynnig i staff, bydd cyfle iddynt un ai fynychu sesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg, yn unol â'u dewis iaith. Bydd hyfforddwyr Cymraeg o'r Gwasanaeth yn cael eu defnyddio i ddarparu'r cyrsiau hyn, pa un ai a ydynt yn arbenigo yn y maes ai peidio. Bydd y cyrsiau a restrir yn Safon 126 yn cael eu cynnig i staff drwy gyfrwng y Gymraeg a byddant yn cael eu hyfforddi gan Hyfforddwyr Cymraeg o'r Gwasanaeth.</p>		<p>Byddwn yn monitro ac adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol ar nifer y staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg, y lefel y maent yn ei astudio a'r cymwysterau y maent yn eu hennill.</p>

<p>Mae'r Gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill wrth ddarparu'r cyrsiau a restrir yn Safonau 125 a 126. Mewn perthynas â Safonau 127 a 128 bydd gweithwyr y Gwasanaeth yn cael cyfle i fynychu gwersi Cymraeg yn ystod oriau gwaith neu drwy fynychu cyrsiau yn y gymuned leol os ydynt yn dymuno.</p>		
<p>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i bob aelod newydd o'r staff. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan Swyddog yr Iaith Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio i gael hyfforddiant ar-lein i staff, bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg yn darparu hyfforddiant penodol i grwpiau o staff sydd ei angen. (Safonau 129 a 130)</p>		<p>Byddwn yn monitro ac adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol ar nifer y staff sydd yn mynychu neu gwblhau cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.</p>
<p>Asesu gofynion iaith Gymraeg pob swydd wag Wrth greu swyddi newydd, neu adolygu swydd bresennol, bydd y rheolwr llinell ar gyfer y swydd a'r swyddog Adnoddau Dynol yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sydd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar y swydd ddisgrifiad h.y. ydy'r swydd yn golygu cyswllt â'r cyhoedd, os felly pa mor aml maent yn darparu gwasanaeth ayyb. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio lefelau sgiliau sy'n seiliedig ar fframwaith ALTE a chyfres o ddatganiadau "gallu gwneud" i bennu'r lefel o Gymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl. (Safonau 134-135B)</p>		<p>Byddwn yn monitro ac adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol ar nifer a natur y rolau Cymraeg hanfodol sydd yn y Gwasanaeth.</p>

<p>Ffurflenni cais Mae ffurflenni cais y Gwasanaeth wedi'u diweddarau i gynnwys gofynion Safon 137.</p>		<p>Byddwn yn monitro ac adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol ar nifer yr ymgeiswyr sydd yn dewis cwblhau ffurflenni cais yn Gymraeg a/neu gael cyfweiliad Cymraeg.</p>
<p>SAFONAU CADW COFNOD A SAFONAU SY'N YMDRIN Â MATERION ATODOL</p>		
<p>Bydd y Gwasanaeth yn cofnodi a monitro'r wybodaeth angenrheidiol a nodir yn Safonau 143-171. Bydd yr wybodaeth ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg ar gais ac yn ddi-oed.</p>		<p>Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ei brif wefan.</p>